# Uned 219: Codi a gosod waliau a lloriau pren

| | |
|---|---|
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad:** | 182 |

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â chodi a gosod waliau a lloriau pren.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng pared sy'n cynnal llwyth a phalis stydiau arferol?
- Beth mae aerdynn yn ei olygu?
- Pa ddeunyddiau ydyn ni'n eu defnyddio mewn adeilad ffrâm bren?
- Beth yw gwerth-U?
- Sut ydw i'n cynllunio dilyniant o weithrediadau i godi a gosod waliau a lloriau pren?

tân, rhwystrau ceudod, rhwystrau lleithder ac anwedd (hydraidd ac anhydraidd), cadwolion, adlynion (gan gynnwys PVA a D4 sy'n ehangu), selwyr, ffitiadau, gosodion (gan gynnwys hoelion, sgriwiau, hoelion gwaith maen, hoelion balistig, gosodion a bracedi morthwyl bolltau), ynysiad thermol ac acwstig ac eitemau atodol cysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o ddiffygion a geir mewn cynhyrchion pren, gan gynnwys diffygion naturiol, trosi a sychu, a'u heffaith ar bren strwythurol.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae modd defnyddio cynaliadwyedd mewn gwaith adeiladu ffrâm bren a manteision defnyddio deunyddiau cynaliadwy. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw manteision defnyddio deunyddiau lleol, nodweddion deunyddiau gwell (arbed ynni), ôl troed carbon is (gan gynnwys carbon corfforedig), a sut maen nhw'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd naturiol, rheoli gwastraff, atal colli ynni a gwerth-U.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd dylunio ar gyfer gweithgynhyrchu gan gynnwys adeiladu oddi ar y safle dyluniad goddefol, a dulliau modern o adeiladu â phren; y cysyniad o egwyddorion dull gwead yn gyntaf a pherfformiad adeiladau o ran perfformiad thermol (gan gynnwys aerglosrwydd, gwerthoedd-U, a phontio oer), yn ogystal â modelu o'i gymharu â fel-yr-adeiladwyd.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw rheoli ansawdd, sicrhau ansawdd, ardystio, a gwarantau o ran lleihau'r bwlch perfformiad; rôl gwahanol ddeunyddiau, cydrannau, a chydosodiadau; diogelwch tân wrth adeiladu ar y safle ac oddi ar y safle; pwysigrwydd rheoli lleithder a lleihau gwastraff.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwrpas yr amrywiaeth o adnoddau yn 1.1, eu swyddogaeth, eu defnydd a'r dulliau o'u gosod mewn amgylchiadau gwahanol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau o roi gwybod am broblemau sy'n ymwneud ag adnoddau (siartiau hierarchaeth, strwythur y cwmni, rôl y pensaer, telerau'r contract, newidiadau i fanyleb, gorchmynion amrywio a chyfarwyddiadau'r pensaer).

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol ac yn deall pwysigrwydd gweithio yn unol â lluniadau, manylebau, rhestrau, gwybodaeth ddigidol a modelu 3D a'r rhyngweithio rhwng dogfennau.

Bydd dysgwyr yn deall manteision cynllunio dilyniant y gofynion deunyddiau a llafur, defnyddio rhestrau meintiau, rhaglenni gwaith, systemau stoc, amseroedd arwain rheoli stoc, rhestrau, siartiau Gantt a siartiau bar.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n bresennol mewn adeilad ffrâm bren gan gynnwys dulliau atal, ac yn gwybod beth yw pwrpas a sut mae dilyn asesiadau risg a datganiadau dull i gyflawni'r gwaith yn ddiogel.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y prif fathau o beryglon a risgiau sy'n gysylltiedig â chodi fframiau pren, gan gynnwys baglu, disgyn o fannau uchel, dod i gysylltiad â sylweddau peryglus a'r rheini sy'n gysylltiedig â pheiriannau a cherbydau, codi, trin a thrafod

mecanyddol, a chodi a chario.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut gall peryglon gael eu creu oherwydd amgylchiadau newidiol yn ystod y broses adeiladu, gan gynnwys datblygiadau ar safle adeiladu a gwaith parhaus, peiriannau a cherbydau, a chyfnodau o dywydd eithafol.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd defnyddio sgiliau priodol (marcio, mesur, gosod) mewn dulliau adeiladu ffrâm.

Bydd dysgwyr yn deall y broses o godi i gynnwys platiau unigol, cyrsiau atal lleithder, pilenni atal lleithder, paneli wal a llawr (strwythurol ac anstrwythurol gan gynnwys SIPs), colofnau a thrawstiau strwythurol distiau a decin rhydd, rhwystrau ceudod, pilenni sy'n anadlu a haenau rheoli anwedd, deunydd inswleiddio lloriau arnofiol ar gyfer gweithgynhyrchu paneli caeedig ac agored ar y safle (codi adeilad pren, balŵn) ac oddi ar y safle (parod).

Bydd dysgwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng dulliau codi adeilad pren ar y safle, balŵn a dulliau adeiladu parod.

**Platiau unigol**

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddewis a gosod platiau unigol gan gynnwys maint y darnau a'r math o ddeunydd, cyrsiau DPC, gosodion amgen (gan gynnwys hoelion gwaith maen/balistig, sgriwiau, gosodion a bracedi morthwyl), maint a lleoliad cywir. Gosod at y llinell, lefelu a newid unrhyw wahaniaethau o ran lleoliad yn unol â gofynion y gwaith a'r goddefiannau.

Bydd dysgwyr yn deall mathau a chyfyngiadau gorhongian a than-hongian ar slab, ail blât unigol, pacio heb gywasgu, a gorgyffwrdd.

**Waliau a lloriau ffrâm bren (strwythurol ac anstrwythurol)**

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddewis, defnyddio a gosod amrywiaeth o baneli waliau pren gan gynnwys paneli allanol a mewnol, codi adeilad pren ar y safle a phaneli parod sy'n cynnwys paneli caeedig ac agored. Bydd dysgwyr yn gwybod dilyniant gweithrediadau wrth godi ffrâm bren h.y. safle cychwyn, cleddu dros dro, lefelu, plymio, y fanyleb ar gyfer gosod, rhwymynnau pen a gorgyffwrdd.

**Gorchuddion a distiau llawr**

Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o ddistiau llawr gan gynnwys pren rhydd, gwe metel, trawst I, trawstiau argaen wedi'u lamineiddio a thrawstiau glulam.

Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o orchuddion distiau pren cyfansawdd a lloriau arnofiol, gan gynnwys: OSB, rhwystrau lleithder ac anwedd (hydraidd ac anhydraidd), T&G, sglodfwrdd, pren haenog.

Bydd dysgwyr yn deall y dulliau priodol o osod gorchuddion distiau yn unol â'r fanyleb, gan gynnwys defnyddio caewyr, tapiau, a selwyr priodol.

**Codi paneli ffrâm agored a chaeedig ar y safle**
Bydd dysgwyr yn deall lleoliad a chyfeiriad cywir paneli: cleddu dros dro, lefelu, cysylltu paneli, codi/hoelio, defnyddio rhwymynnau pen, gosodiadau a chaewyr, defnyddio bandiau gwasg, gosod pilenni sy'n anadlu a phroses rhwygo ac atgyweirio, dilyn codau rhifo, lluniadau ac amserlenni.

**Gweithgynhyrchu paneli wal a lloriau casét oddi ar y safle**
Bydd dysgwyr yn gwybod am y prosesau sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu paneli waliau caeedig ac agored, systemau lloriau casét gan ddefnyddio jigiau, dilyn cynlluniau a lluniadau, gan gynnwys:

- pren solet, trawst Larsen, trawst I, gwe metel
- byrddau gorchuddio mewnol ac allanol
- ynysiad (gan gynnwys gwlân mwynol, cynhyrchion sy'n seiliedig ar ewyn, cellwlos wedi'i chwistrellu ag aer, ffibr pren wedi'i chwistrellu ag aer, ffibr pren hyblyg, a ffibr pren anhyblyg)
- pilenni a phapurau sy'n anadlu
- mynediad ar gyfer gwasanaethau.

**Colofnau a thrawstiau strwythurol wedi'u hymgorffori**
Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae lleoli a gosod amrywiaeth o golofnau a thrawstiau strwythurol, gan gynnwys dur, concrid, trawstiau glulam pren a phren wedi'i beiriannu ar gyfer trosglwyddo llwythi.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau priodol o osod gwasanaethau mewn adeilad ffrâm bren, gan gynnwys pibelli nwy, dŵr a gwastraff, ceblau trydan, telathrebu.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae miniogi, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel, gwirio, cynnal a chadw, storio cyfarpar sydd ei angen i osod waliau a lloriau, a chofnodi unrhyw ddiffygion.

Offer a chyfarpar i gynnwys llifiau, morthwylion, cŷn, sgriwdreifars, driliau trydanol, driliau diwifr, darnau driliau, hoelwyr pŵer, offer pŵer batri, trei-sgwaryn.

Cyfarpar mesur, lefelu a recordio: tâp mesur, lefel laser, lefel saer, plymen, llinell linyn, lefelau dŵr, lefel bwt, theodolit a gweithfannau cyfansawdd.

## Deilliant dysgu

**3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb**

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau mesur, marcio allan, ffitio, alinio, lleoli a sicrhau

**3.2** Defnyddio a chynnal offer llaw ac offer pŵer a chyfarpar ategol i godi a/neu osod y canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddwyd:

- platiau unigol
- waliau a lloriau ffrâm bren (strwythurol ac anstrwythurol)
- colofnau a thrawstiau strwythurol wedi'u hymgorffori

### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

**Deilliant 3**

**3.1 a 3.2**

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a gosod amrywiaeth o ddistiau, gan gynnwys pren rhydd, gwe metel, trawst I.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a gosod amrywiaeth o orchuddion distiau pren cyfansawdd a lloriau arnofiol gan gynnwys bwrdd gorchuddio OSB, rhwystrau lleithder ac anwedd (hydraidd ac anhydraidd), T&G, sglodfwrdd, pren haenog, a chreu agoriadau i wasanaethau o dan y lloriau.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a gosod platiau unigol i gynnwys maint y darnau a'r math o ddeunydd, cyrsiau DPC, gosod at y llinell, lefelu ac addasu unrhyw wahaniaethau mewn lleoliad.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, defnyddio a gosod amrywiaeth o baneli waliau pren gan gynnwys sbandrel, paneli allanol a mewnol, codi adeilad pren ar y safle, paneli sydd wedi'u gweithgynhyrchu ymlaen llaw gan gynnwys SIPs, paneli caeedig ac agored.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a defnyddio'r dulliau priodol o osod gwasanaethau mewn paredau.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod yn ddiogel, defnyddio a chynnal gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trafod yn ddiogel, pentyrru a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn deall y mathau o lwyth, marw, byw a deinamig h.y. gwynt.

Bydd dysgwyr yn deall y gwahaniaeth sylfaenol rhwng toeau cypledig a thoeau wedi'u torri traddodiadol.

**To cypledig**
Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o doeon ceibr cypledig, gan gynnwys ffinc, ffan, brenhinbost, banonbost, atig, hytrawst, a mono.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gwahanol gydrannau sydd eu hangen i godi to cypledig (ymylon to ceibr cypledig, cafnau, cyplau gostyngol, talcen, ysgol, walblat, bondo, ymyl, strapiau, walblat a chyfyngiad, cleddu, ochrol, croeslinol a cheibrau, clip cwpl, cleddu dros dro.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o fondo (agored, caeedig, cywastad a danheddog) a'r deunyddiau a ddefnyddir (pren caled, pren meddal ac UPVC).

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o ymylon (systemau caeedig, cywastad, plastig, a sych).

**Toeau fflat a thalcenni toriad traddodiadol**
Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o adeiladu toeau toriad traddodiadol (sengl, dwbl, talcen, gwastad, cwpl, cwpl agos, coler a fflat).

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol gydrannau sy'n cael eu defnyddio i adeiladu toeau fflat a thalcenni traddodiadol:

- toeau talcen: walblat, bwrdd crib, ceibren cyffredin, trawslathau, pennau sbroced, ceibren nenfwd, clymau coler, rhwymynnau, ysgol talcen, bondo, ymylon, ffasgau, estyll tywydd, soffitiau, bracedi soffitiau, strapiau, cleddau ochrol a chroeslinol

- toeau fflat: walblat, ceibren nenfwd, cynheiliad, ffiledau a ffyrinau, ffasgau, soffitiau, decin oer a chynnes, deunyddiau decin.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd dylunio ar gyfer gweithgynhyrchu, adeiladu oddi ar y safle, a dulliau modern o adeiladu â phren; y cysyniad o egwyddorion dull gwead yn gyntaf a pherfformiad adeiladau o ran perfformiad thermol ac acwstig (gan gynnwys trosglwyddo sŵn, aerglosrwydd, awyru, llif aer, gwerthoedd-U, a phontio oer).

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw rheoli ansawdd, sicrhau ansawdd, ardystio, a gwarantau o ran lleihau'r bwlch perfformiad; rôl gwahanol ddeunyddiau, cydrannau, a chydosodiadau; diogelwch tân wrth adeiladu ar y safle ac oddi ar y safle; pwysigrwydd rheoli lleithder; a lleihau gwastraff.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall y drefn ar gyfer codi toeau cypledig a thoeau wedi'u torri:

**To cypledig**

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gosod trawstiau ac yn deall pwysigrwydd cleddu ochrol, cleddu croeslinol, cleddu onglog, cyfyngiadau ochrol, walblat, ysgol talcen, strapiau (walblat ac ochrol) a chlipiau cypledig.

**Toriad traddodiadol**

Bydd dysgwyr yn deall y dulliau ar gyfer pennu hyd a thoriadau ceibrennau cyffredin, gan gynnwys torri syth, torri sedd a'r drydedd linell/goleddf a phwysigrwydd walblat, bwrdd crib, trawslathau, ysgol talcen, cleddau, a strapiau (walblat ac ochrol).

**Bondoeau a gorffeniadau ymylon**

Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau o ffurfio bondo caeedig, agored, danheddog a chywastad gan gynnwys bracedi soffitiau, soffitiau, ffiled gogwydd, ffasgau, estyll tywydd, systemau awyru perchnogol, gorffeniadau ymylon sych, plastig a systemau sment.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gofynion o ran cyfarpar diogelu personol ar gyfer codi a gosod strwythurau to, gan gynnwys harneisiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am fesurau diogelu cyfunol, cyfarpar diogelu personol a chyfarpar diogelu anadlol.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa gyfarpar mynediad sydd ei angen ar gyfer y gwaith a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau o roi gwybod am broblemau sy'n ymwneud ag adnoddau (siartiau hierarchaeth, strwythurau'r cwmni, rôl y pensaer, telerau'r contractau, a newidiadau i fanylebau, gorchmynion amrywio a chyfarwyddiadau'r pensaer).

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol ac yn deall pwysigrwydd gweithio yn unol â lluniadau, manylebau, rhestrau, gwybodaeth ddigidol a modelu 3D a'r rhyngweithio rhwng dogfennau.

Bydd dysgwyr yn deall manteision cynllunio dilyniant y gofynion deunyddiau a llafur, defnyddio Rhestrau meintiau, rhaglenni gwaith, systemau stoc, amseroedd arwain rheoli stoc, rhestrau, manylebau, siartiau Gantt, siartiau bar a dadansoddi llwybrau critigol.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n bresennol wrth osod a chodi toeau ac yn gwybod beth yw pwrpas a sut mae dilyn asesiadau risg a datganiadau dull i gyflawni'r gwaith yn ddiogel. Y peryglon a'r risgiau i gynnwys syrthio o fannau uchel, dod i gysylltiad â sylweddau peryglus, peiriannau, a cherbydau, codi, trin a thrafod mecanyddol, a chodi a chario, anafiadau cyhyrol/ sgerbydol o arferion gweithio gwael.

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r peryglon.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis y cyfarpar diogelu personol cywir gan gynnwys harneisiau, laniardiau, helmedau, esgidiau a dillad llachar a gofynion mesurau diogelu cyfunol.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut gall peryglon gael eu creu oherwydd amgylchiadau newidiol yn ystod y gweithle, gan gynnwys datblygiadau ar safle adeiladu a gwaith parhaus, peiriannau a cherbydau, a chyfnodau o dywydd eithafol.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae deunyddiau'n cael eu defnyddio i adeiladu toeau pren ac yn deall pwysigrwydd defnyddio'r sgiliau a'r deunyddiau priodol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis deunyddiau addas ar gyfer tasgau a'u defnydd ac yn deall y broses o adeiladu toeau pren.

**Cwpl**

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i fesur, marcio, ffitio, alinio, gorffen, lleoli a sicrhau toeau ceibr cypledig.

Bydd dysgwyr yn deall goblygiadau, manteision ac anfanteision adeiladu strwythurau to ceibrennau cypledig ar lefel y ddaear.

**Toriad Traddodiadol**

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i fesur, marcio, ffitio, alinio, gorffen, lleoli a sicrhau toeau toriad traddodiadol gan gynnwys sengl, dwbl, talcen, gwastad, cwpl, cwpl agos, coler a fflat.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd gweithio yn unol â lluniadau, manylebau a rhestrau a sut mae'r dogfennau'n rhyngweithio. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gael gwybodaeth o luniadau, amserlenni a manylebau gwaith ar gyfer lleoliad, maint a gosodiad.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae miniogi, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel, gwirio, cynnal a chadw, storio a chofnodi unrhyw ddiffygion â'r cyfarpar sydd ei angen i osod strwythurau to.

Offer a chyfarpar i'w cynnwys: llifiau, morthwylion, cŷn, sgriwdreifars, driliau trydanol, driliau diwifr, darnau driliau, hoelwyr pŵer, offer pŵer batri, tâp mesur, trei-sgwaryn, lefel saer, plymen a llinell linyn.

Bydd dysgwyr yn deall y defnydd o sgwâr to dur, sgwâr to, canllaw cyflym, theorem Pythagoras, lefel, befelau, llinellau.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd dylunio ar gyfer gweithgynhyrchu, adeiladu oddi ar y safle, a dulliau modern o adeiladu â phren; y cysyniad o egwyddorion dull gwead yn gyntaf a pherfformiad adeiladau o ran perfformiad thermol (gan gynnwys aerglosrwydd, gwerthoedd-U a phontio oer).

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw rheoli ansawdd, sicrhau ansawdd, ardystio a gwarantau o ran lleihau'r bwlch perfformiad; rôl gwahanol ddeunyddiau, cydrannau a chydosodiadau; pwysigrwydd rheoli lleithder; a lleihau gwastraff.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall y gwahanol fathau o strwythurau to:

- to toriad traddodiadol (sengl, dwbl, talcennog, cafnau, talcen, fflat, gwastad, cwpl, cwpl agos a choler)
- to cypledig modern (mono, dwbl, brenhinbost, banonbost, ffan, ffinc, atig, gostyngol).

Bydd dysgwyr yn deall y dulliau sy'n cael eu defnyddio i sefydlu'r gwahanol gydrannau a ddefnyddir i adeiladu fframwaith strwythur to ar gyfer toeau cypledig modern a thoriad traddodiadol.

Bydd dysgwyr yn deall cydrannau toriad to traddodiadol gan gynnwys walblat, byrddau crib, ymylon main, cafnau, ceibrennau cyffredin, jacbrennau, jac cafnau, ceibrennau cripl, trawslathau, byrddau gosod, hongwyr, pwyslathau a chleddau/glynwyr, ymylon main esgud, bondoeau, ymylon, ffasgau, estyll tywydd a soffitiau.

Bydd dysgwyr yn deall toeau cypledig modern: paneli sbandrel, cleddau hydredol, cleddau croeslinol, cleddau onglog, trawstiau, gosodion trawstiau, manyleb cleddau trawstiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sy'n ymwneud ag adnoddau.

Bydd dysgwyr yn deall y cyfarpar mynediad sydd ei angen ar gyfer y gwaith a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig a sut mae diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod yn unol â'r fanyleb wrth godi a gosod cydrannau fframwaith strwythur y to.

Bydd dysgwyr yn deall y peiriannau a'r offer (craen) sydd eu hangen i weithio ochr yn ochr â nhw wrth godi cydrannau fframwaith strwythur y to.

**1.3** Bydd dysgwyr yn deall manteision cynllunio dilyniant y gofynion deunyddiau a llafur, defnyddio rhestrau meintiau, rhaglenni gwaith, systemau stoc, amseroedd arwain rheoli stoc, rhestrau, siartiau Gantt a dadansoddi llwybrau critigol.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n bresennol wrth osod a chodi toeau ac yn gwybod beth yw pwrpas a sut mae dilyn asesiadau risg a datganiadau dull i gyflawni'r gwaith yn ddiogel. I gynnwys syrthio o fannau uchel, dod i gysylltiad â sylweddau

peryglus, peiriannau a cherbydau, codi, trin a thrafod mecanyddol, a chodi a chario, anafiadau cyhyrol/ sgerbydol o arferion gweithio gwael.

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r peryglon.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis y cyfarpar diogelu personol cywir gan gynnwys harneisiau, laniardiau, helmedau, esgidiau a dillad llachar a gofynion mesurau diogelu cyfunol.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod risgiau sy'n gysylltiedig â strwythurau toeau pren ac yn deall pwrpas asesiadau risg a datganiadau dull i gynnwys baglu, disgyn o fannau uchel, dod i gysylltiad â sylweddau peryglus, peiriannau a cherbydau, codi, trin a thrafod mecanyddol, a chodi a chario.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut gall peryglon gael eu creu oherwydd amgylchiadau newidiol yn ystod y gweithle, gan gynnwys datblygiadau ar safle adeiladu a gwaith parhaus, peiriannau a cherbydau, a chyfnodau o dywydd eithafol.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall sut i fesur, marcio, ffitio, alinio, gorffen, lleoli a sicrhau amrywiaeth o gydrannau fframwaith strwythur y to

**To cypledig**

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gwahanol gydrannau sydd eu hangen i godi to cypledig (ymylon to ceibr cypledig, cafnau, cyplau gostyngol, talcen, ysgol, walblat, bondo, ymyl, strapiau - walblat a chyfyngiad, cleddu, ochrol, croeslinol a cheibrau, clip cwpl, cleddu dros dro).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i fesur, marcio, ffitio, alinio, gorffen, lleoli a sicrhau amrywiaeth o doeon ceibr cypledig, gan gynnwys ffinc, ffan, brenhinbost, banonbost, atig, hytrawst, a mono.

**To wedi'i dorri'n draddodiadol**

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i fesur, marcio, ffitio, alinio, gorffen, lleoli a sicrhau amrywiaeth o doeon toriad traddodiadol gan gynnwys toeau sengl, dwbl, talcennog, talcen, fflat, gwastad, cwpl a choler gan gynnwys ymylon main a/neu gafnau, ymylon to a bondoeau, gorffeniadau parapet, simneiau ffug, agoriadau (gan gynnwys ffenestri, hatshys, dormerau, ffenestri to a fentiau), ceibrennau (cyffredin, crwm, jac, cripl, ymyl fain, cafn, ymyl fain esgud, ymyl fain sgubor) a distiau nenfwd, bwrdd crib, byrddau gosod, byrddau cafn, trawslathau, ac ongl ddeuhedrol.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adeiladu gwahanol fathau o fondo (agored, caeedig, cywastad a danheddog) a'r deunyddiau a ddefnyddir (pren caled, pren meddal ac UPVC).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adeiladu gwahanol fathau o ymylon (systemau caeedig, cywastad, plastig a sych/ sment).

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd gweithio yn unol â lluniadau, manylebau a rhestrau a sut mae'r dogfennau'n rhyngweithio. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gael gwybodaeth o

luniadau, amserlenni a manylebau gwaith ar gyfer lleoliad, maint a gosodiad.

Bydd dysgwyr yn deall y dulliau cywir a ddefnyddir i sefydlu dimensiynau'n gywir ac i sefydlu'r manylion gosod allan o luniadau, manylebau a chyfarwyddiadau llafar.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae miniogi, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel, gwirio, storio a chynnal a chadw cyfarpar sydd ei angen i osod strwythurau to a chofnodi unrhyw ddiffygion. Offer a chyfarpar i gynnwys llifiau, morthwylion, cŷn, sgriwdreifars, driliau trydanol, driliau diwifr, darnau driliau, hoelwyr pŵer, offer pŵer (prif gyflenwad, batri, niwmatig), tâp mesur, trei-sgwaryn, sgwâr toi, lefel saer, plymen, llinell sialc a llinell linyn.

## Deilliant dysgu

**3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb**

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i fesur, marcio, ffitio, alinio, gorffen, lleoli a sicrhau

**3.2** Defnyddio a chynnal offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i ymgorffori o leiaf ddau o'r dilynol mewn toeau ffrâm bren yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddir:

- arisiau a/neu gafnau
- ymylon a bondoeau
- gorffeniadau parapet
- simneiau ffug
- agoriadau (e.e. ffenestri, hatshis, dormerau, ffenestri to a fentiau)

a nodi befelau a hydoedd gofynnol cydrannau toeau a godir ar y safle

### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

### Deilliant 3

**3.1 a 3.2**

Bydd dysgwyr yn gallu pennu gwir hyd a befel y gydran to wedi'i thorri gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau h.y. geometrig, lluniadau graddfa, canllaw cyflym, Pythagoras.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod cydrannau carcasau strwythurol a deunyddiau yn unol â'r manylebau gan gynnwys:

- mesur
- marcio
- torri
- ffitio
- gorffen
- lleoli a sicrhau.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod allan, torri a gosod toeau ar oleddf gydag ymylon main a chafnau a dormerau, gan gynnwys:

- cydrannau'r to: ceibrennau (crwm, cyffredin, ymyl fain, jack, cafn, cripl,) trawslathau, walblat, bwrdd crib, glynwyr, pwyslathau, cleddau
- gorffeniadau ymylon to a bondoeau (ffasgau, soffitiau, estyll tywydd, bracedi soffitiau, bylchwyr awyru, fentiau soffitiau, gan gynnwys rhai agored, caeedig, danheddog a gorchuddiedig)
- gorffeniadau parapet, cerrig copa, concrit wedi'i rag-gastio, metel copa, brics, seliau
- simneiau ffug (GRP, argaen brics, gwteri ôl, seliau)
- agoriadau (ffenestri, hatshis, dormerau, ffenestri to a fentiau), ceibrennau dwbl.

- ffenestri dormer (talcen, fflat, sied [goleddf mono], talcennog) gan gynnwys bochau dormer, linteli, deunydd inswleiddio, rhwystrau lleithder ac anwedd.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a defnyddio:

- cyfarpar mesur (prennau mesur, tapiau mesur, cyfarpar mesur diogel)
- llifiau (llaw a PPT gan gynnwys llif dorri, llif gron, llif fwrdd)
- sgwariau (gan gynnwys toi, befel cymwysadwy a 90 gradd)
- morthwylion, morthwyl hollt
- hoeliwr fframio
- llinellau llinyn, ymyl syth
- lefelau (optegol, laser, 600mm, 1000mm a 1800mm).

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod yn ddiogel, defnyddio a chynnal gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trafod yn ddiogel, pentyrru a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod problemau a deall y drefn adrodd wrth slingio a signalu symudiad llwythi crog.

**1.3** Bydd dysgwyr yn deall y gweithdrefnau gweithio a ddefnyddir i ddewis y dulliau mwyaf priodol o slingio a signalu symudiad llwythi crog a byddant yn gwybod sut i ddilyn gweithdrefnau'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio - craen, triniwr telesgopig, fforch godi, llwythwyr lorïau, codi a chario.

Bydd dysgwyr yn deall y gweithdrefnau gweithio a ddefnyddir i ddewis yr ategolion mwyaf priodol gan gynnwys slingiau, modrwyau, dolenni, bachau, gefynnau, unedau troi, llygadfolltau a thrawstiau gwasgaru i'w defnyddio wrth symud fframiau pren (onglau sling, lleoli'r bachyn).

Mae dysgwyr yn gwybod sut mae archwilio, storio, cynnal a chadw a chofnodi gwiriadau ar gyfarpar codi ac ategolion.

**1.4** Bydd dygwyr yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â slingio a signalu symudiad llwythi crog. Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn asesiadau risg a datganiadau dull i gyflawni'r gwaith yn ddiogel, gan gynnwys maint, siâp, pwysau, a dulliau gweithio, gweithio o fannau uchel a chodi a chario.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o signalau a ffyrdd eraill o gyfathrebu a phryd i'w defnyddio, signalau llaw, cyfarpar signalu â llaw (goleuadau, ffyn, menig fflwroleuol, baneri) a chyfarpar cyfathrebu electronig (cyrn siarad yn uchel, radios).

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r peryglon.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall sut mae pennu safle priodol ar gyfer ategolion codi, gan gynnwys slingiau, modrwyau, dolenni, bachau, gefynnau, unedau troi, llygadfolltau a thrawstiau gwasgaru wrth slingio symudiad llwythi crog sy'n gysylltiedig â fframiau pren (deunydd rhydd, trawstiau, colofnau, paneli).

Bydd dysgwyr yn deall y dulliau cywir sy'n cael eu defnyddio i signalu, wrth symud cydrannau fframiau pren, lloriau, distiau a thoeau (deunydd rhydd, trawstiau, colofnau, paneli).

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd defnyddio technegau signalu rhyngddyn nhw a gweithredwr peiriannau a'i bwrpas (cyfarwyddo, arwyddo, lleoli, addasu, ffurfweddu, symud, sicrhau, signalu a throsglwyddo'r adnodd sy'n cael ei symud).

Bydd dysgwyr yn deall y weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am broblemau wrth osod a chodi ategolion

**2.2** Bydd dysgwyr yn deall y dulliau cywir sy'n cael eu defnyddio i gynnal archwiliadau gweledol ar ategolion codi (slingiau cadwyn, slingiau gwe, sling rhaffau gwifren, cydwyr sy'n byrhau, bachau slinc, tryc paledi, modrwyau, dolenni, bachau, gefnynnau, unedau troi, llygadfolltau a thrawstiau gwasgaru).

Bydd dysgwyr yn deall y dulliau cywir a ddefnyddir i gynnal cyfarpar signalu â llaw (goleuadau, ffyn, menig fflworoleuol, baneri) a chyfarpar cyfathrebu electronig (cyrn siarad yn uchel, radios). Dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar, gan gynnwys gwirio cywirdeb, gwefru/newid batris cyfarpar glanhau.

## Deilliant dysgu

**3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb.**

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau mesur, bwrw amcan, amcangyfrif, cyfrifo, ffitio, gosod, profi, cydbwyso, dehongli, archwilio, barnu, esbonio, paratoi, nodi, hysbysu, cyfarwyddo, arwyddo, lleoli, addasu, ffurfweddu, symud, sicrhau, signalu a throsglwyddo

**3.2** Defnyddio a chynnal a chadw ategolion codi, cymhorthion codi a signalu, a slingio a signalu symudiad llwythi crog a chyfarpar cyfathrebu i

- archwilio a pharatoi ategolion codi cyn slingio
- slingio o leiaf dri o'r llwythi dilynol a signalu peiriannau i'w codi a'u symud yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir,
    - cytbwys
    - anghytbwys
    - rhydd
    - wedi'u bwndelu
    - blwch
    - drwm
    - llwyth lle na all gweithredwr y peiriant weld ei lwybr symud llawn.
- arwain a symud llwythi crog i gyrchfannau y cytunwyd arnynt, yn ogystal â'u gosod ynddynt, yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir drwy ddefnyddio signalau llaw **ynghyd ag un** o'r dulliau dilynol
    - cyfarpar signalu â llaw
    - cyfarpar cyfathrebu electronig

### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu cyfrifo pwyntiau slingio a/neu godi, a dewis yr ategolion codi cywir ar gyfer y llwyth sy'n cael ei godi.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gallu dewis a defnyddio amrywiaeth o ategolion codi i lwytho a slingio amrywiaeth o gydrannau strwythurol ffrâm bren yn ddiogel, gan gynnwys:

- paneli waliau
- paneli lloriau
- trawstiau to
- paneli sbandrel

# Uned 317: Cydgysylltu a chadarnhau gofynion dimensiynol y gwaith

| | |
|---|---|
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad:** | 40 |

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gwybodaeth ddimensiynol, dulliau cyfathrebu a sut mae gwirio a defnyddio cyfarpar mesur a chofnodi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:
- deall rheolaethau a gwybodaeth ddimensiynol
- gallu cofnodi a rhoi gwybod am wybodaeth ddimensiynol, rheolaethau, gwiriadau a gwahaniaethau.

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:
- Pa fath o luniadau fydd angen i mi ddysgu eu darllen?
- Beth yw pwynt datwm?
- Sut mae'r dull 3-4-5 yn gweithio?
- Pa gyfarpar arbenigol fyddaf i'n ei ddefnyddio?
- Sut ydw i'n gwybod a yw'r rhain yn gywir?

## Deilliant dysgu

**1. Deall sut mae dehongli a chyfathrebu gwybodaeth er mwyn lleoli, lefelu a llinellu**

### Meini Prawf

**1.1** Sut i gydgysylltu gwybodaeth a'i chyfleu er mwyn galluogi lleoli, llinellu a lefelu yn gywir

**2. Deall sut mae cynnal rheolaeth ddimensiynol**

### Meini Prawf

**2.1** Sut i gadarnhau a mesur rheolaethau dimensiynol, pwyntiau gosod allan, llinellau a phroffiliau, yn ogystal â'u cynnal, yn unol â'r gofynion a nodwyd ar gyfer y gwaith

**3. Gwybod sut mae gosod a defnyddio cyfarpar mesur a chofnodi**

### Meini Prawf

**3.1** Sut i ddewis, gosod a defnyddio cyfarpar mesur a chofnodi er mwyn sicrhau ei fod yn gweddu â'r goddefiannau a nodwyd

**4. Deall sut mae rhoi gwybod am wahaniaethau, a'u haddasu**

### Meini Prawf

**4.1** Sut i nodi ac adrodd am amgylchiadau ac amodau sy'n arwain at unrhyw wahaniaethau mewn lleoliad, lefel a llinell

**4.2** Sut i adrodd am unrhyw wahaniaethau mewn lleoliad, lefel a llinell, yn ogystal â'u newid, yn unol â gofynion y gwaith

### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn deall yr angen i gyfathrebu'n gywir yn ystod y camau gosod allan, gan gynnwys defnyddio lluniadau, manylebau, rhestrau a chyfyngiadau gwaith, mathau o luniadau, graddfeydd, i gadarnhau gofynion dimensiynol y gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gael gwybodaeth o luniadau, amserlenni a manylebau gwaith ar gyfer lleoliad, maint, lefel a llinell y cydrannau, a sut i ddefnyddio dogfennau at ddibenion cyfathrebu.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall y gwahanol ddulliau o bennu cywirdeb dimensiynol a sut mae cadarnhau a mesur rheolyddion dimensiynol, gan gynnwys pwyntiau gosod allan, llinellau, proffiliau a lefelau, sefydlu corneli sgwâr ac onglau, yn unol â chyfarwyddiadau, lluniadau, manylebau a rhestrau.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae adnabod pwyntiau lefel sefydlog a datwm, a sut i drosglwyddo pwyntiau datwm i sefydlu Meincnod Dros Dro (TBM) yn unol â'r fanyleb.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae nodi unrhyw wahaniaethau o ran lleoliad, aliniad a lefel ac yn gallu'r nodi camau cywiro angenrheidiol.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gwiriadau perthnasol ar gyfer rheolyddion dimensiynol, gan gynnwys hyd, lled, uchder, gwiriadau lletraws a'r dull 3-4-5.

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o offer mesur a chofnodi, gan gynnwys lefelau dŵr, lefel bwt, theodolit a gweithfannau cyfansawdd, a'r defnydd ohonynt.

**Deilliant 4**

**4.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses i roi gwybod am broblemau a diwygiadau, gan gynnwys gwahaniaethau o ran lleoliad, aliniad a lefel gan gynnwys siartiau hierarchaeth, strwythur y cwmni, rôl y pensaer (gorchmynion amrywio/cyfarwyddiadau'r pensaer), newidiadau i gontract, newidiadau i fanyleb.

**4.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i osod at y llinell, lefelu a newid unrhyw wahaniaethau o ran lleoliad neu'n unol â gofynion y gwaith a'r goddefiannau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae nodi unrhyw wahaniaethau o ran lleoliad, aliniad a lefel ac yn deall sut i gymryd y camau cywiro angenrheidiol yn unol â'r manylebau.

Bydd dysgwyr yn deall mathau a chyfyngiadau gorhongian a than-hongian ar slab, ail blât unigol, pacio heb gywasgu a gorgyffwrdd.

## Deilliant dysgu

**5. Cofnodi a rhoi gwybod am wybodaeth ddimensiynol, rheolaethau, gwiriadau a gwahaniaethau**

**5.1** Cofnodi a rhoi gwybod pryd mae cyfarpar mesur a chofnodi wedi'i archwilio

**5.2** Cofnodi ac adrodd am yr wybodaeth ddimensiynol a roddir i gydweithwyr

**5.3** Cofnodi ac adrodd am y rheolaethau dimensiynol, y pwyntiau gosod allan, y llinellau a'r proffiliau

**5.4** Cofnodi ac adrodd am yr amgylchiadau a'r amodau sy'n arwain at wyro oddi wrth y rheolaethau dimensiynol a'r newidiadau sydd eu hangen yn unol â gofynion y gwaith

### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

**Deilliant 5**
**5.1-5.4**
Bydd dysgwyr yn gallu gosod, gwirio a chofnodi cywirdeb y cyfarpar mesur a chofnodi.

Bydd dysgwyr yn gallu cael gwybodaeth o luniadau, amserlenni a manylebau gwaith ar gyfer lleoliad, maint, lefel a llinell y cydrannau.

Bydd dysgwyr yn gallu cofnodi a rhoi gwybod am unrhyw amrywiad o ran safle, aliniad a lefel gan gynnwys lleoliad, pwyntiau datwm a lefelau padiau.

Bydd dysgwyr yn gallu gwirio a rhoi gwybod am unrhyw wahaniaethau ym meintiau paneli pren agored a chaeedig, amrywiadau i adnoddau, newidiadau i gynlluniau waliau (mewnol ac allanol).